

Y problemau a gyfyd wrth drin cleifion sydd wedi cael strôc

Gan Dr T. Rhys Davies, B.D.S., P.D.D.S., Llangefni, Ynys Môn.

Achosir strôc pan gaiff y llif gwaed i'r ymennydd ei atal yn sydyn. Gall yr achos fod yn waedlif neu'n geulad gwaed, ac fe all y naill a'r llall amddifadu meinwe'r ymennydd o ocsigen a bydd y meinwe'n marw o fewn munudau i golli ocsigen.

Mae rhai meddygon o'r farn na ddylid rhoi triniaeth ddeintyddol am chwe mis ar ôl strôc lem. Dw i wedi bod yn gweld cleifion cyn hynny ond wedi rhoi cyn lleied ag y bo modd o driniaeth iddyn nhw.

Fel pob amser wrth drin claf deintyddol, y drefn arferol ydi cynnal archwiliad i ddechrau. O ran claf sydd wedi cael strôc, gall cyfathrebu fod yn broblem. Efallai y bydd y cleifion eu hunain yn dioddef o affasia (sef lleihad yn y gallu i ddeall neu ddefnyddio iaith oherwydd y niwed i ochr chwith yr ymennydd). Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol yn ystod yr archwiliad ydi asesu faint y mae'r cleifion yn ei ddeall, a cheisio dehongli eu hymdrechion i ymateb os oes ganddynt broblemau llefaru.

Dylid gwneud defnydd o dechnegau cyfathrebu effeithiol:

- defnyddio patrymau llefaru araf pwrpasol ond heb fod yn nawddoglyd
- cadw ar lefel llygaid y claf
- ceisio ymdrin â'r claf o'r ochr chwith nad amharwyd arni fel arfer ar ôl y strôc
- lleihau'r nifer o bethau a all dynnu sylw o fewn ardal y driniaeth a chynyddu effeithiolrwydd y cyfathrebu drwy gadw'r cyswllt llygad a pheidio â gwisgo mwgwd
- defnyddio modelau a thynnu lluniau llinell syml er mwyn arddangos
- rhoi gwybodaeth gynhaliol mewn ysgrifen ar ffurf ddarllenadwy i'r claf
- ailadrodd pwyntiau allweddol
- siarad mewn llais tawel ond peidio â gweiddi

Dyma'r rhan o'r driniaeth a fu anoddaf i mi gyda chleifion oedd wedi cael strôc. Mewn rhai ffyrdd, mae pethau'n haws os oes aelod o'r teulu neu ffrind neu ofalydd gyda'r claf ond gall hynny hefyd dynnu sylw rhywun ac amharu ar y cyfathrebu uniongyrchol efo'r claf. Dw i'n teimlo bod hynny'n ychwanegu at y duedd i ymdrin â'r cleifion yn nawddoglyd, h.y. siarad heibio iddyn nhw ac nid efo nhw.

Pan fydd cyfathrebu rhesymol wedi'i sefydlu, gellir mynd ymlaen efo'r archwiliad ond efallai y bydd yn anodd cael gwybodaeth gan y claf (e.e. Ers pa bryd mae o'n brifo? Oes 'na unrhyw beth yn ei wneud yn waeth?). Effeithir o bosib ar allu'r claf i gydweithredu mewn profion arbennig, fel radiograffau, nes gwneud casglu gwybodaeth er mwyn ffurfio diagnosis yn aml yn anodd

Pan fydd cynllun y driniaeth wedi'i ffurfio, bydd ei drafod, a chael cadarnhad fod cydsyniad gwybodus wedi'i roi i'r driniaeth honno, yn gallu bod yn anodd iawn ac yn gofyn yn aml am gydweithrediad gofalyddion ac aelodau'r teulu.

Mae angen i gynllun y driniaeth ei hun gydnabod y problemau a gaiff y claf wrth geisio ymgysylltu at y canlyniad a fwriadwyd. Bydd yn rhaid ystyried hefyd y moddion y gall y claf fod yn eu cymryd ac fe all hynny, felly, olygu ymgynghori gyda meddyg teulu neu feddyg ymgynghorol.

Ymysg y problemau a all effeithio ar gleifion sydd wedi cael strôc, ceir:

- gwaedu ar ôl triniaeth o ganlyniad i gyffuriau gwrthgeulo.
- ceg sych, y gorchfannau'n gwaedu neu'n gordyfu (hyperplasia) o ganlyniad i foddion.
- perygl o gael damwain serebro-fasgwlaidd (a all ddigwydd o ganlyniad i heintiau, gan gynnwys heintiau yn y geg).
- parllys ochrol (hemiplegia) neu led-barllys (hemiparesia). Gall hyn achosi'r heriau arbennig o ran cadw'r geg yn hylan. Gall cerdded fod yn anodd a gall hynny greu problem wrth fynd a dod i ardal y driniaeth ddeintyddol.

- gwendidau yng nghyhyrau'r wyneb a'r geg. Gall y claf fod â rheolaeth wael ar ei boer a bod ag ystum gên llac.
- anhawster i drin bwyd a hylifau (dysffagia). Mae hyn yn achosi problemau yn ystod triniaeth deintyddol; gall y claf fod â chyfog gwag neu beswch, neu fynd i banig. Bydd bwyd hefyd yn debygol o gasglu yn rhigolau bochol y geg ac mae'r arfer i ddefnyddio'r tafod i lanhau o gwmpas y dannedd a'r geg yn digwydd yn llai aml.
- apracsia, sef anhawster i greu gwahanol ystumiau pan ofynnir am hynny neu drwy ddynwared. Gall hyn achosi trafferthion yn ystod triniaeth os oes gan y claf gast o roi'i dafod allan neu duedd gynyddol o grychu'i wefusau'n dynn. Gall dal at arferion oes, fel brwsio'r dannedd, fod yn anodd i'r claf a bydd dysgu sgiliau newydd yn her go iawn.
- problemau ymddygiad. Gall cleifion droi'n ddigalon a blin a hynny'n dod i'r wyneb mewn ymddygiad anodd – a all ddigwydd mewn deintyddfa. Gall personoliaeth claf ymddangos fel pe bai wedi newid yn ddramatig ond bydd yn rhaid cymryd rhywbeth fel hyn i ystyriaeth.
- Anhawster i ddod i'r practis a chael cynhaliaeth yn y cartref ar gyfer hylendid y geg.

Mae cleifion sydd wedi cael strôc yn wynebu llawer o anawsterau yn ystod eu bywydau.

Mae edrych ar ôl iechyd deintyddol yn her i gleifion, i'w gofalyddion ac i'r tîm deintyddol.

Mae'n rhaid bod yn amyneddgar, yn drylwyr ac yn ofalus wrth gynnal archwiliad a rhoi triniaeth, gan ofalu bod y claf a'r gofalyddion yn cael rhan yn y cynllun triniaeth terfynol.

Bydd yn rhaid rhoi cynnig ar gyfathrebu gyda chleifion anodd; yn aml iawn, byddant yn ymateb yn dda i ymdrechion y person proffesiynol ganiatáu iddynt fod â rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a thrafod sut i'w cynnal.

Bydd yn rhaid rhoi cymorth ymarferol o ran defnyddio past dannedd fflworid uchel i gryfhau'r dannedd, gan addasu'r brwsys dannedd efallai er mwyn hwyluso'r glanhau. Efallai y bydd angen rhyw fath o gymorth hefyd ar gleifion gyda dysffagia i lanhau eu dannedd gosod a'u cynghori ynghylch glanhau gweddillion bwyd o'r geg ar ôl bwyta.

Mae gen i nifer o gleifion o wahanol oedrannau sydd wedi cael strociau ar raddfeydd amrywiol o lymder. Dw i bob amser wedi gweld bod symleiddio'r cynllun triniaeth a chadw'r apwyntiadau'n gymharol fyr yn gweithio'n dda. Mae'n ddiddorol sylwi bod cleifion dwyieithog yn tueddu i fod yn llawer iawn mwy cyffyrddus pan gynhelir y sgwrs yn eu hiaith gyntaf. Cofiaf glywed am Gymraes a gawsai strôc ac er i'w holl yrfa broffesiynol a'i bywyd ar yr aelwyd fod i gyd drwy gyfrwng y Saesneg, daeth ei meistrolaeth ar iaith, ar ôl ei strôc, yn ôl iddi drwy'r Gymraeg yn y lle cyntaf ac ychydig wythnosau'n ddiweddarach y dychwelodd ei gallu i siarad Saesneg. Mae'n siŵr gen i y byddai'r math yma o beth yn sicr o fod yn wir yn achos unrhyw grŵp ethnig ac felly fe all cefnogaeth teulu a gofalyddion fod yn fwy perthnasol fyth.

Gall trin cleifion sydd wedi cael strôc fod yn waith anodd a rhwystredig. Ond teimlaf fod yr ymdrech ychwanegol yn werth chweil gan fod y cleifion sydd gen i wedi bod efo fi ers tro byd a byddwn yn siŵr o deimlo'n anesmwyth iawn pe bawn yn eu troi heibio pan fo'u hangen yn fwy na'r hyn ydoedd yn y gorffennol.

Mae'r amser ychwanegol sy'n rhaid ei roi yn cilio i'r gysgodion pan fo'r cleifion a'u teuluoedd yn gallu gweld bod rhywun yn dal i weld gwerth ynddyn nhw ac yn gofalu amdanyh nhw.